

BUSNES A RHEOLAETH

Amser - 1.5 awr

Atebwch DRI cwestiwn - UN o bob Rhan - mae'r holl gwestiynau'n gyfwerth eu marciau

**Dangoswch yn glir sut y daethoch i'ch atebion.
Datganwch unrhyw ragdybiaethau a wnewch, a'u hesbonio.
Cewch ddefnyddio cyfrifiannell nad oes modd ei rhaglennu.**

RHAN A - Atebwch BOB cwestiwn o'r rhan hon

Cwestiwn A1

Mae A Cyf a B Cyf yn gweithredu yn yr un farchnad. Dyma eu datganiadau ariannol i'r flwyddyn a ddaeth i ben ar 31/5/2017:

Datganiad o Incwm i'r flwyddyn a ddaeth i ben ar 31/5/2017

	A Cyf	B Cyf
	£000	£000
Gwerthiannau	2,100	1,500
Pryniadau	<u>1,400</u>	<u>1,100</u>
Elw gros	700	400
Treuliau eraill	<u>270</u>	<u>250</u>
Elw net cyn treth	430	150
Treth	<u>100</u>	<u>40</u>
Elw net ar ôl treth	330	110

Mantolen ar 31/5/2017

	A Cyf		B Cyf	
	£000		£000	£000
Asedau sefydlog			1,750	900
Asedau cyfredol				
Stoc	450		350	
Dyledwyr	<u>900</u>	1,350	<u>700</u>	1,050
Rhwymedigaethau Cyfredol				
Credydwyr	550		480	
Gorddrafft	<u>150</u>	<u>700</u>	<u>550</u>	<u>1,030</u>
Asedau/(rhwymedigaethau) cyfredol net			<u>650</u>	<u>20</u>
Cyfanswm asedau wedi tynnu rhwymedigaethau cyfredol			2,400	920
Tynnu: Rhwymedigaethau anghyfredol				
Benthyciad			<u>200</u>	<u>600</u>
Asedau net			<u>2,200</u>	<u>320</u>
Cyfalaf ac arian wrth gefn				
Cyfalaf cyfranddaliadau cyffredin			1,000	150
Elw a gedwir			<u>1,200</u>	<u>170</u>
			<u>2,200</u>	<u>320</u>

MAE ANGEN:

- a) Cyfrifo'r cymarebau isod i 2017 i'r ddau gwmmi, A Cyf a B Cyf, er mwyn cymharu perfformiadau'r ddau fusnes:

Proffidioldeb: Adenillion ar y cyfalaf a ddefnyddiwyd (*ROCE*), Adenillion ar gronfeydd cyfranddalwyr (*ROSHF*), Cymhareb elw gros a Chymhareb elw net

Hylifedd: Cymhareb gyfredol: Cymhareb y prawf asid a Geriad

Effeithlonrwydd: Cyfnod casglu dyledion: Cyfnod credydwyr a gymerwyd a Chyfnod trosiant stoc. (20 marc)

- b) Cymharwch berfformiad A Cyf a B Cyf a pharatoi drafft o'ch casgliadau a'ch argymhellion. (14 marc)

(Cyfanswm 34 marc)

RHAN B - Atebwch **UN** cwestiwn o'r rhan hon

Cwestiwn B 1

Esboniwch rai o fanteision ac anfanteision posib Brexit i economi Prydain. **(33 Marc)**

Cwestiwn B2

Llymder ynteu buddsoddi? P'un sy'n well er mwyn adfywio economi mewn ymateb i gyfnodau o gwmp economaidd? Trafodwch **(33 marc)**

RHAN C - Atebwch **UN** cwestiwn o'r rhan hon

Cwestiwn C1

Esboniwch sut y mae strategaeth anfarchnadol yn wahanol i strategaeth farchnadol. **(33 marc)**

Cwestiwn C2

Esboniwch pam y byddai cwmnïau'n penderfynu allgontracito (*outsourcing*)? **(33 marc)**